Ynni Lleol | Local Energy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ynni Sir Gâr Cyf



**Math o brosiect:** Tyrbin gwynt 500kW

**Lleoliad:** Salem, Llandeilo

**Nod:** Codi arian er mwyn cymryd camau gweithredu lleol ar Newid Hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i bobl leol, tlodi tanwydd a chadw unrhyw elw yn lleol. Galluogi trigolion Sir Gâr i gael budd uniongyrchol o'u hadnoddau naturiol toreithiog.

## Gwybodaeth am y cynllun

Ar ôl i gynnig cychwynnol ar gyfer tyrbin gwynt 500kW, a ddatblygwyd gan Ynni Sir Gâr ar dir rhwng Llanddarog a Nantgaredig, gael ei wrthod, llwyddodd Ynni Sir Gâr i sicrhau hawliau datblygu tyrbin gwynt 500kW a gymeradwywyd yn Salem gan Seren Energy, a oedd ar fin gwerthu'r hawliau hyn i gwmni preifat. Drwy gymryd camau cyflym, llwyddodd Ynni Sir Gâr i sicrhau bod y gymuned leol yn dod yn berchen ar y datblygiad hwn, ac yn mwynhau ei fuddiannau a'i gyfleoedd.

Cafodd y tyrbin, peiriant Enercon E48 500 kW, ei adeiladu a'i gomisiynu yn 2016. Llwyddodd y grŵp i sicrhau cyllid cyfalaf mewn cyfnod byr, gyda chryn dipyn o'r cyllid hwn yn cael ei ddarparu gan raglen Ynni'r Fro Llywodraeth Cymru. Ers sicrhau'r cyllid a dechrau'r gwaith adeiladu, mae'r grŵp wedi rhedeg tri chynnig cyfranddaliadau llwyddiannus ac wedi codi mwy na £1 filiwn mewn cyfranddaliadau yn y prosiect.

Mae'r tyrbin bellach wedi bod yn weithredol ers dros flwyddyn ac wedi bod yn cynhyrchu incwm cynaliadwy ar gyfer Ynni Sir Gâr i'w ddefnyddio er budd ei drigolion lleol. Y rhai fydd yn manteisio ar y gronfa budd cymunedol gyntaf yw'r gymuned leol yn Salem gyda phaneli solar ffotofoltäig, storfa batris a phwynt gwefru ceir trydan yn cael eu gosod yn Neuadd Bentref Salem.

## Partneriaid

**Ynni Sir Gâr Cyfyngedig:** Wedi'i ysbrydoli i fynd i'r afael â newid hinsawdd a thlodi tanwydd, ac atgyfnerthu'r gymuned leol, ar ôl blwyddyn o ymgynghori â chymunedau, busnesau, cynghorwyr a swyddogion, sefydlwyd Ymddiriedolaeth Ynni Sir Gâr fel Cymdeithas Anghorfforedig, gyda rhywfaint o gyllid cychwynnol hollbwysig gan Bartneriaeth Amgylchedd Sir Gaerfyrddin yn 2011.

Flwyddyn yn ddiweddarach, ym mis Tachwedd 2012, cafodd y Gymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus er Budd y Gymuned, Ynni Sir Gâr Cyfyngedig, ei chofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau. Ei nod yw cefnogi grwpiau

cymunedol, y rheini sy'n wynebu tlodi tanwydd a'r rhai sy'n pryderu am sicrwydd ynni a newid hinsawdd; gan greu prosiectau ynni adnewyddadwy er mwyn pobl, nid elw, ac ailfuddsoddi unrhyw warged a gynhyrchir yn yr economi leol.

**Seren Energy:** Ymgynghoriaeth ynni adnewyddadwy wedi'i lleoli yn Abertawe yw Seren Energy. Yn ogystal â darparu gwasanaethau ymgynghori, mae Seren Energy wedi datblygu ei mentrau ynni adnewyddadwy ei hun drwy ei changen ddatblygu, Seren Renewables.

Darparodd Seren Energy wasanaethau ymgynghori i Ynni Sir Gâr ar gyfer ei brosiect tyrbin gwynt cychwynnol, CELT1, na chafodd ganiatâd cynllunio. Datblygwyd y datblygiad tyrbin gwynt yn Salem gan Seren Energy ar gyfer Seren Renewables yn wreiddiol. Ar ôl cael caniatâd cynllunio, gwerthodd Seren Renewables yr hawliau datblygu i Ynni Sir Gâr a galwyd y prosiect yn CELT2.

**Ynni'r Fro/Ynni Lleol:** Er mwyn sicrhau hawliau datblygu'r prosiect, gwneud y taliadau angenrheidiol am y tyrbin gwynt a gallu datblygu'r cynnig cyfranddaliadau cychwynnol, rhoddodd Llywodraeth Cymru fenthyciad cyfalaf i'r prosiect drwy gynllun Ynni'r Fro (rhagflaenydd y Gwasanaeth Ynni Lleol). Mae'r rhan fwyaf o'r benthyciad hwn bellach wedi'i ailgyllido drwy gynnig cyfranddaliadau, gyda'r gweddill yn cael ei weinyddu gan Fanc Datblygu Cymru.

## Beth oedd y canlyniad?

Prynodd Ynni Sir Gâr y prosiect ac mae wedi bod yn cynhyrchu trydan adnewyddadwy glân ers 22 Mai 2016.

Er nad oedd y flwyddyn weithredu gyntaf yn arbennig o wyntog, cynhyrchodd y tyrbin fwy nag 1.5 MWh o drydan erbyn mis Hydref 2017 – sy'n cyfateb i anghenion trydanol blynyddol tua 400 o gartrefi cyffredin yn Sir Gâr.

Mae'r prosiect wedi codi £1 filiwn o ecwiti cyfranddaliadau gan tua 160 o gyfranddalwyr. Mae'r cyfranddalwyr hyn wedi talu eu llog o 5.6% ar gyfer y flwyddyn gyntaf ar eu buddsoddiad. Mae'r grŵp eisoes wedi dechrau gwneud defnydd da o'r arian a gynhyrchir gan y tyrbin, drwy osod paneli solar ffotofoltäig, storfa batris, pwyntiau gwefru trydan a goleuadau ynni isel yn Neuadd Bentref Salem gerllaw. Mae'r camau hyn yn ysbrydoli'r neuadd i gymryd camau pellach ei hun er mwyn lleihau ei biliau ynni.

## Beth a ddysgwyd?

### Manteision cael bwrdd cryf a chadarn

Er bod y prosiect wedi wynebu rhwystrau a heriau, mae'r Bwrdd y Cyfarwyddwyr wedi rhoi o'u hamser i oresgyn y rhain. Maent wedi cefnogi ei gilydd wrth fynd i'r afael â'r rhwystrau ac wedi denu talent newydd i'w Bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Maent yn parhau i fod yn gryf ac yn ymrwymedig i gyflawni eu nodau a'u huchelgeisiau.

### Mae llawer o gefnogaeth i'r prosiect

Mae mwy na 500 o bobl wedi "hoffi" tudalen Facebook Ynni Sir Gâr ac mae ei bresenoldeb ar Twitter yn cynyddu. Mae gan Ynni Sir Gâr tua 200 o aelodau ar hyn o bryd, y mae mwy na thri chwarter ohonynt yn gyfranddalwyr. Mae tua 70% o'r cyfranddalwyr yn hanu o Sir Gâr, sy'n dangos cefnogaeth pobl leol i'r prosiect a'u hyder ynddo. Mae'r grŵp yn anelu at gyfyngu ar y cyfranddaliadau sy'n weddill yn y prosiect i gyfranddalwyr yn Sir Gâr yn targedu elusennau lleol a grwpiau cymunedol yn benodol.

### Ysbrydoli eraill i weithredu

Mae'r grŵp yn falch o fod wedi gosod paneli solar ffotofoltäig 10kW gyda 5kWh o fatris a phwynt gwefru ceir trydan yn Neuadd Salem. Mae hefyd wrthi'n gosod goleuadau ynni isel yn y neuadd. Mae'r camau hyn wedi ysbrydoli'r Neuadd i osod pwmp gwres ffynhonnell aer er mwyn lleihau ei biliau ynni ymhellach a gwneud y defnydd mwyaf o'r trydan a gynhyrchir gan y paneli solar ffotofoltäig.

## Cymorth gwasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru

Rhoddodd Llywodraeth Cymru fenthyciad i Ynni Sir Gâr er mwyn ei alluogi i brynu hawliau datblygu'r prosiect, gwneud y taliadau angenrheidiol am y tyrbin gwynt a datblygu'r cynnig cyfranddaliadau cychwynnol. Rhoddwyd y benthyciad drwy gynllun Ynni'r Fro (rhagflaenydd Ynni Lleol). Yn ddiweddarach, cafodd ei drosglwyddo i'w weinyddu gan Fanc Datblygu Cymru.

Mae gwasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi Ynni Sir Gâr wrth iddo chwilio am brosiectau newydd a'u datblygu.

## Ynni Lleol

Mae'r gwasanaeth Ynni Lleol yn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i bobl leol drwy gymorth swyddog datblygu, grantiau a benthyciadau. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Ynni Lleol.

Ceir rhagor o wybodaeth am y prosiect yn: www.carmarthenshireenergy.org

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:**

**Paul Smith**
**Rheolwr y Rhaglen Ynni Lleol**

**e: ynnilleol@est.org.uk**



Ynni Lleol | Local Energy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government